### **GWELER MANYLION ISOD**

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN

## Partneriaeth Pensiynau Cymru - Cynllun Cyfathrebu

Mae Partneriaeth Pensiynau Cymru ("PPC") o'r farn bod cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol yn hanfodol os ydyw am lwyddo i gyflawni ei amcanion. Mae PPC, fel rhan o'i ymrwymiad i'r gred hon, wedi cytuno i greu a chynnal cynllun cyfathrebu fydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn. Bydd adolygiad blynyddol y cynllun cyfathrebu yn ystyried y datblygiadau arloesol yn y diwydiant cyfathrebu a barn budd-ddeiliaid PPC.

Mae'r cynllun cyfathrebu hwn yn nodi sut fydd PPC yn mynd ati i gwblhau ei strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol. Mae'r cynllun yn amlinellu'r hyn a ganlyn mewn perthynas â PPC:

- Cynulleidfa Darged
- Prif Negeseuon / Prif Ddiben
- Dull Cyfathrebu
- Cyfrifoldebau
- Y Broses Adolygu a Myfyrio

### Cyfathrebu Mewnol

#### Cynulleidfa Darged

Fel rhan o'i gynllun cyfathrebu mewnol, bydd PPC yn ceisio cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyrff mewnol a ganlyn:

- Awdurdodau Cyfansoddol
- Swyddogion
- Aelodau'r CBLI
- Aelodau'r Cynllun (drwy'r Awdurdodau Cyfansoddol)
- Pwyllgorau Pensiwn
- Byrddau Pensiwn
- Fforymau Pensiwn
- Cyflogwyr
- Cyflenwyr (e.e. Y Gweithredwr)

#### Prif Ddiben

Mae PPC yn cydnabod bod cyfathrebu mewnol effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion PPC. Bydd cyfathrebu mewnol yn meithrin mwy o gydweithio ymysg personél PPC ac yn helpu i sicrhau fod pawb yn gwbl ymwybodol ac wedi alinio â chredoau, amcanion a blaenoriaethau PPC.

Bydd gwell cyfathrebu mewnol yn golygu bod modd rhannu gwybodaeth ar lefel uwch o fewn PPC a gwella proses gwneud penderfyniadau PPC. Yn ogystal, bydd cyfathrebu mewnol yn gadael i BCC feithrin ei hunaniaeth a'i diwylliant unigryw ei hun, a bydd hyn yn galluogi i'r Bartneriaeth ddatblygu gweledigaeth unedig a chynllun taith ei hun.

#### Dull Cyfathrebu

Mae PPC wedi nodi'r dulliau a'r sianelau cyfathrebu a ganlyn fel y ffordd y bydd yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu â'i fudd-ddeiliaid mewnol:

- Datganiad Blynyddol Aelodau PPC (er defnydd Awdurdodau Cyfansoddol)

- Cwestiynau a ofynnir yn aml i Aelodau (er defnydd Awdurdodau Cyfansoddol)
- Gwefan
- Cyfryngau cymdeithasol
- Nodiadau crynodeb o'r cyfarfod
- Arolygon
- Porthol dogfen fewnol
- Galwadau cynhadledd bob pythefnos
- Cyfarfodydd y GS
- Cyfarfodydd y CBLI
- Ymgysylltu a dyddiau hyfforddiant

### Cyfrifoldebau

Mae'r tabl isod yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am elfennau penodol o gynllun cyfathrebu mewnol PPC:

Tasg / Sianel Cyfathrebu:	Cyfrifoldeb:
Datganiad Blynyddol Aelodau PPC	Cadeirydd CBLI
Cwestiynau a ofynnir yn aml i Aelodau	Yr Awdurdod Lletya
Gwefan	Yr Awdurdod Lletya
Cyfryngau cymdeithasol	Yr Awdurdod Lletya
Nodiadau crynodeb o'r cyfarfod	Yr Awdurdod Lletya
Arolygon	Yr Awdurdod Lletya
Porthol dogfen fewnol	Yr Awdurdod Lletya
Galwadau cynhadledd bob pythefnos	Yr Awdurdod Lletya / Gweithredwr / Ymgynghorwyr
Cyfarfodydd y GS	Aelodau'r GS
Cyfarfodydd y CBLI	Aelodau'r CBLI a'r GS
Ymgysylltu a dyddiau hyfforddiant	Yr Awdurdod Lletya / Gweithredwr / Rheolwyr Buddsoddi

### Y Broses Adolygu a Myfyrio

Bydd PPC yn adolygu ac yn myfyrio ar addasrwydd ei gynllun cyfathrebu mewnol fel rhan o'i adolygiadau hanner blwyddyn a blynyddol o'i gynllun cyfathrebu. Y Gweithgor Swyddogion ('GS') fydd yn cynnal yr adolygiadau. Diben yr adolygiadau fydd asesu p'un a yw polisi cyfathrebu mewnol PPC yn effeithiol, gan feithrin cydweithrediad a chynorthwyo â phroses gwneud penderfyniadau PPC.

Fel rhan o'r adolygiad blynyddol, bydd arolwg yn cael ei gyflwyno i bob corff mewnol i geisio canfod lefelau bodlonrwydd â'r polisi cyfathrebu cyfredol a'r meysydd gwella posib. Bydd adolygiad y GS yn

nodi meysydd gwella ac yn pennu pa adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r newidiadau hyn. Bydd y CBLI yn ystyried ac yn cymeradwyo'r rhain.

## Cyfathrebu Allanol

### Cynulleidfa Darged

Fel rhan o'i gynllun cyfathrebu allanol, bydd PPC yn ceisio cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyrff mewnol a ganlyn:

- Llywodraeth Ganolog (gan gynnwys Gweinidogion ac yn benodol, MHCLG)
- Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Gweinidogion)
- Undebau
- Y Cyfryngau
- Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
- Grwpiau Lobïo
- Cronfeydd cyd-fuddsoddi (pwlio) eraill

### Prif Negeseuon

Mae PPC wedi nodi'r prif negeseuon a ganlyn fel y rhai y mae'n dymuno'u cyfleu i gynulleidfaoedd allanol:

- **Llwyddiant a Chyflwyno Arbedion Cost** - Mae PPC yn falch o'i lwyddiant hyd yma ac mae wedi ymrwymo i gyflwyno llwyddiant parhaus. Mae PPC wedi rhoi gwerth am arian wrth wraidd ei phroses gwneud penderfyniadau, gyda'r amcan o gyflwyno arbedion cost. Mae'r model cyd-fuddsoddi a fabwysiadwyd gan BPC wedi caniatáu iddi osgoi costau sefydlu a gweithredu uchel. Mae model PPC wedi darparu fframwaith sy'n cyflwyno cyfleoedd buddsoddi deniadol a chost effeithiol i Awdurdodau Cyfansoddol, ac mae'n parhau i wneud hynny.
- **Cydweithio** - Mae PPC yn seiliedig ar yr egwyddor bod Awdurdodau Cyfansoddol Cymru yn llwyr ymrwymedig i gydweithio er pennaf les eu haelodau, eu cyflogwyr a budd-ddeiliaid eraill. Mae PPC yn adeiladu ar y perthnasau cryf a'r arfer dda o gydweithio y bu i'r Awdurdodau Cyfansoddol ei sefydlu fel rhan o'u menter 'Cydweithio'. Mae cryfder a chynnydd PPC tuag at well deilliannau i'w buddiolwyr yn seiliedig ar allu'r Awdurdodau Cyfansoddol i gydweithio a chydweithredu'n effeithiol â'i gilydd.
- **Cyflawni Buddion i Aelodau a Chyflogwyr y Cynllun** - Mae PPC yn falch o'i fodel cyd-fuddsoddi sydd wedi'i ddylunio i fodloni anghenion Awdurdodau Cyfansoddol PPC, fydd yn ei dro yn cwrdd ag anghenion eu haelodau a'u cyflogwyr. Mae PPC yn ymdrechu i gael y safonau llywodraethu uchaf a chyflawni buddion y buddiolwyr.
- **Hunaniaeth Gymreig** - Mae PPC yn falch o gynrychioli Cymru gyfan a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Mae PPC yn cynrychioli cydweledigaeth Awdurdodau Cyfansoddol Cymru a'r map y maent wedi'i ddatblygu i gyflawni'r weledigaeth hon.
- **Aelod Balch o Gymuned y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** - Mae PPC yn falch o'i dreftadaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac mae wedi ymgorffori'r nodweddion Cynllun

Pensiwn Llywodraeth Leol a ganlyn yn rhan o'i strwythur: llywodraethu cadarn, tryloywder a lefelau uchel o atebolrwydd lleol.

### Dulliau a Sianeli Cyfathrebu

Mae PPC wedi nodi'r dulliau a'r sianelau cyfathrebu a ganlyn fel y ffordd y bydd yn gweithredu ar ei bolisi cyfathrebu allanol ac yn cyfleu prif negeseuon i'w chynulleidfa darged:

- Gwefan PPC
- Cwestiynau a ofynnir yn aml
- Cyfryngau Cymdeithasol (e.e. LinkedIn)
- Diweddariad Blynyddol ar Gynnydd PPC
- Datganiadau allanol i'r wasg a datganiadau i'r wasg
- Papurau cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLI') sydd ar gael yn gyhoeddus
- Ymgynghoriadau MHCLG
- Presenoldeb mewn cynadleddau a digwyddiadau allanol

### Cyfrifoldebau

Mae'r tabl isod yn amlinellu pwy sy'n gyfrifol am elfennau penodol o bolisi cyfathrebu allanol PPC:

<b>Tasg / Sianel Cyfathrebu:</b>	<b>Cyfrifoldeb:</b>
Cyfleu prif negeseuon PPC a gweithredu ar Gynllun Cyfathrebu PPC	Holl bersonél PPC
Cynnal a chadw gwefan PPC	Yr Awdurdod Lletya
Cwestiynau a ofynnir yn aml	Yr Awdurdod Lletya
Ymgynghoriadau MHCLG	Yr Awdurdod Lletya (gyda chymorth gan bartïon perthnasol, e.e. Y Gweithredwr a Rheolwyr Buddsoddi)
Cynnal a chadw cyfryngau cymdeithasol PPC	Yr Awdurdod Lletya
Diweddariad Blynyddol ar Gynnydd PPC	Cadeirydd CBLI
Datganiadau i'r Wasg	Cadeirydd y CBLI, Cadeirydd y GS a'r Awdurdod Lletya
Papurau cyfarfodydd y Cydbwyllgor Llywodraethu ('CBLI') sydd ar gael yn gyhoeddus	Holl bersonél PPC
Presenoldeb mewn cynadleddau a digwyddiadau allanol	Holl bersonél PPC



## **Adolygu a Myfyrio**

Mae PPC yn cydnabod y bydd ei chynulleidfa, prif negeseuon, cyfrifoldebau a dulliau cyfathrebu, yn esblygu. Felly, bydd PPC yn cynnal adolygiad llawn o'i gynlluniau cyfathrebu bob blwyddyn, yn ogystal ag adolygiad hanner blwyddyn canolraddol.

Bydd yr adolygiadau blynyddol a chanolraddol yn cael eu cynnal gan y Gweithgor Swyddogion ('GS'), a diben yr adolygiadau fydd asesu p'un a yw Cynllun Cyfathrebu PPC yn parhau i fod yn briodol neu a ddylid ei ddiweddarau. Yn ystod cwrs yr adolygiad blynyddol, bydd y GS yn ystyried cwestiynau a allai fod yn heriol y dylid eu gofyn i BPC ac yn llunio ymatebion addas i'r cwestiynau hyn. Ar ôl cwblhau adolygiad cyfathrebu blynyddol PPC, bydd y GS yn cyflwyno addasiadau i'r cynllun er cymeradwyaeth y CBLI.

Fersiwn 1.0 Rhagfyr 2019

## Atodiad 1: Geirfa

**Cwestiynau a ofynnir yn aml** - Bydd y ddogfen yn ymdrin ac yn ateb y cwestiynau y mae cynulleidfaoedd allanol yn eu gofyn i BPC yn aml, e.e. Beth yw PPC? Bydd y ddogfen hefyd yn amlinellu polisi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) PPC ac i bwy y dylid cyfeirio ceisiadau FOI. Bydd y ddogfen cwestiynau a ofynnir yn aml ar gael yn gyhoeddus ar wefan PPC.

**Diweddariad Blynyddol ar Gynnydd PPC** - Bydd y ddogfen ar gael yn gyhoeddus a bydd ar gael ar wefan PPC. Bwriad y ddogfen yw cyfleu'r gwaith a'r cynnydd y mae PPC wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Datganiad Blynyddol Aelodau PPC** - Bydd y ddogfen hon hefyd yn cyfleu'r gwaith a'r cynnydd y mae PPC wedi'i gyflawni dros y flwyddyn a fu. Bydd y datganiad yn wahanol i'r diweddariad blynyddol ar gynnydd PPC - bydd yn ddogfen bwrsol ar gyfer aelodau cynllun PPC ac fe'i hystyrir yn ddogfen fewnol. Bydd y cyfathrebiad hwn yn nodi pa gamau gweithredu mae PPC wedi'u cwblhau dros y flwyddyn, yn ogystal ag adnabod beth fydd y camau hyn yn ei olygu i aelodau. Bydd y ddogfen yn cael ei chynhyrchu gan yr Awdurdod Lletya ac yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r bwriad o rannu'r wybodaeth hon ag aelodau eu Cynllun fel y maent yn ei ystyried yn briodol. Wrth ddrafftio'r ddogfen hon ar lefel Awdurdod Lletya, bwriedir annog mwy o negeseuon unedig ar draws aelodau'r Awdurdodau Cyfansoddol.

**Cwestiynau a ofynnir yn aml i Aelodau** - Bydd y ddogfen hon yn ateb nifer o gwestiynau y mae aelodau cynllun PPC yn eu gofyn yn aml. Yn benodol, bydd yn ymdrin â chwestiynau ar oblygiadau'r broses cyd-fuddsoddi a ffurfio PPC ar bensiynau aelodau. Bydd y ddogfen yn cael ei chynhyrchu gan yr Awdurdod Lletya ac yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdodau Cyfansoddol gyda'r bwriad o rannu'r wybodaeth hon ag aelodau eu Cynllun fel y maent yn ei ystyried yn briodol. Wrth ddrafftio'r ddogfen hon ar lefel Awdurdod Lletya, bwriedir annog mwy o negeseuon unedig ar draws aelodaeth yr Awdurdodau Cyfansoddol.

**Nodiadau crynhoi o'r cyfarfod** - Cynhyrchir y nodiadau hyn yn dilyn pob cyfarfod GS a CBLI a byddant yn crynhoi prif elfennau'r cyfarfod; y penderfyniadau a wnaed a'r pwyntiau gweithredu. Bydd y nodiadau crynhoi hyn yn cael eu cyflwyno i bob Awdurdod Cyfansoddol gan ragweld y byddant yn cael eu rhannu â Phwyllgorau Pensiynau yr Awdurdodau Cyfansoddol lleol. Mae'r nodiadau crynhoi yn ceisio sicrhau bod gan yr holl Bwyllgorau Pensiynau yr un lefel o wybodaeth ar benderfyniadau a gweithrediadau diweddar PPC.

**Arolygon** - yn cyfeirio at bob arolwg barn, holiadur ac arolwg a gyflwynwyd ar ran PPC. Defnyddir arolygon barn yn aml i ganfod argaeledd ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Defnyddir holiaduron i gasglu'r amrediad o greddau a barn o fewn PPC. Defnyddir arolygon i adnabod lefelau bodlonrwydd a meysydd gwella ar gyfer y dyfodol.

**Porthol dogfen fewnol** - mae'n cyfeirio at borthol mewngofnodi y gall personél PPC ei ddefnyddio i gael mynediad i ddogfennaeth allweddol PPC megis papurau cyfarfodydd, cofnodion blaenorol, deunyddiau llywodraethu a gwybodaeth gyswllt.

**Galwadau cynhadledd bob pythefnos** - mae'n cyfeirio at y galwadau a gynhelir bob pythefnos rhwng personél PPC a chyflenwyr allanol perthnasol, megis y Gweithredwr, y Ceidwad a'r Rheolwyr Buddsoddi.

**Ymgynghoriadau MHCLG** - mae'n cyfeirio at geisiadau am wybodaeth a diweddariadau ar gynnydd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG).

**Holl bersonél PPC** - mae'n cyfeirio at aelodau'r CBLI, aelodau'r GS, a phersonél yr Awdurdod Lletya. Noder y gellir ystyried aelodau Pwyllgorau Pensiynau'r Awdurdodau Cyfansoddol fel rhan o'r diffiniad hwn os ydynt yn cynrychioli'r Awdurdodau Cyfansoddol mewn cynadleddau a digwyddiadau allanol.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



## CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

**9 RHAGFYR 2019**

### **DATGANIAD CREDOAU PPC**

#### **ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:**

**Cymeradwyo Datganiad Credoau Partneriaeth Pensiynau Cymru**

#### **RHESYMAU:**

Un o'r prif weithgareddau o dan adran lywodraethu y cynllun gwaith ar gyfer 2019/20 yw llunio'r amcanion a'r credoau ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru. Mae'r datganiad credoau ynghlwm wedi cael ei greu ac mae gofyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn 01267 224160**

**E-bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

# CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

9 RHAGFYR 2019

## DATGANIAD CREDOAU PPC

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r amcanion a'r credoau sydd wedi'u llunio ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi'u cynnwys yng nghynllun gwaith y Bartneriaeth ar gyfer 2019/20, a gafodd ei gytuno gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019.

Cynhaliwyd gweithdy credoau a pholisïau yn dilyn cyfarfod y Cydbwyllgor fis Medi 2019. Cynhaliwyd y gweithdy hwn gan Hymans, a mynychodd aelodau'r Cydbwyllgor a swyddogion o'r Gweithgor Swyddogion. Yn dilyn y gweithdy hwn, crëwyd y datganiad credoau sydd ynghlwm.

Mae'r datganiad hwn yn nodi credoau Partneriaeth Pensiynau Cymru sy'n cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau, polisïau a chynlluniau busnes y Bartneriaeth.

Bydd y credoau hyn yn cael eu hadolygu bob blwyddyn.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
	DIM	DIM	DIM	DIM
<b>Polisi</b> Mae datganiad credoau wedi'i baratoi a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

## YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth  
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

### **GWELER MANYLION ISOD**

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN



## Datganiad Credoau Partneriaethau Pensiynau Cymru

Prif amcan Partneriaeth Pensiynau Cymru ('y Bartneriaeth') yw darparu fframwaith fuddsoddi sy'n llwyddo i gael y deilliannau gorau i'w brif fudd-ddeiliaid; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynllun. Yn ogystal, bydd y Bartneriaeth yn ymdrechu i gael gwerth am arian ac arbedion cost i'w fudd-ddeiliaid.

Mae gan y Bartneriaeth y credoau a ganlyn, a defnyddir y rhain i lywio penderfyniadau, polisiau a chynlluniau busnes y Bartneriaeth. Adolygir y credoau hyn bob blwyddyn.

- 1 Swyddogaeth y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu plattform cyd-fuddsoddi lle gellir gweithredu buddion yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- 2 Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i fudd-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- 3 Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdodau Lletya a Chyfansoddol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gallai cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd wrth ddarparu arbedion cost a gwell deilliannau i fudd-ddeiliaid.
- 4 Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- 5 Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd cost-effeithiol o wella adnoddau, galluoedd ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- 6 Dylai Buddsoddi Cyfrifol ac ystyriaeth o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu arwain at well deilliannau ar gyfer budd-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- 7 Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo gwneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau budd-ddeiliaid.
- 8 Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn cynorthwyo'r Bartneriaeth a'i Awdurdodau Cyfansoddol i esblygu.
- 9 Bydd ymagwedd hyblyg i strwythur cyd-fuddsoddi a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi cronfa gyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth i addasu yn y dyfodol, a pharhau i gwrdd â gofynion ei fudd-ddeiliaid.

Fersiwn 1.0 Tachwedd 2019

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



## CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

9 RHAGFYR 2019

### MATRICES LLYWODRAETHU PPC

#### ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:

**Cymeradwyo Matrics Llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru**

#### RHESYMAU:

Un o'r prif weithgareddau o dan adran llywodraethu y cynllun gwaith ar gyfer 2019/20 yw llunio matrics llywodraethu. Mae'r matrics llywodraethu bellach wedi cael ei greu ac mae gofyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn 01267 224160**

**E-bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

**CRYNODEB GWEITHREDOL  
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

**9 RHAGFYR 2019**

**MATRICES LLYWODRAETHU PPC**

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Mae llunio matrices llywodraethu wedi'i gynnwys yng nghynllun gwaith 2019/20 y Bartneriaeth, a gytunwyd arno gan y Cydbwyllgor Llywodraethu ar 27 Mawrth 2019.

Mae'r matrices Llywodraethu yn ddogfen sy'n rhoi trosolwg o strwythur llywodraethu'r Bartneriaeth, gan amlinellu penderfyniadau a gweithrediadau allweddol a wneir gan y Bartneriaeth, ac sy'n nodi pa gyrrff mewnol sy'n gyfrifol am gymeradwyo, adolygu, creu, argymell, cynghori, monitro, cadw at a gweithredu'r penderfyniadau a'r gweithrediadau hyn.

**ADRODDIAD MANWL  
YNGHLWM?**

**OES**

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb OES	Cyfreithiol	Cyllid	Materion Rheoli Risg	Goblygiadau Staffio
<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>	<b>DIM</b>
<b>Polisi</b> Mae matrices llywodraethu wedi'i baratoi a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.				

## YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth  
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

### **GWELER MANYLION ISOD**

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN

## Matrics Llywodraethu'r Bartneriaeth

	Gweithrediad	Awdurdod Lletya	GS	Awdurdodau Cyfansoddol (Pwyllgorau Pensiwn)	CBLI	Gweithredwr	Ymgynghorydd Arolygiaeth
<b>Credu ac Amcanion</b>	Creduau, amcanion a strwythur pŵl y Bartneriaeth	-	Creu ac argymell	Cymeradwyaeth ysgrifenedig (IAA 6.1)	Cymeradwyo	Cydymffurfio	Cynghori
<b>Nodau a Chynllun</b>	Cynllun Strategol: amcanion ac amserlenni	-	Creu ac argymell	Adolygu	Cymeradwyo	Cydymffurfio	Cynghori
<b>Llywodraethiant, Gwneud Penderfyniadau, Polisiau</b>	Manylu ar y gwneud penderfyniadau, swyddogaethau a chyfrifoldebau, dirprwyo a strwythur llywodraethu	-	Creu ac argymell	Cymeradwyaeth ysgrifenedig (IAA 34.1)	Cymeradwyo	-	Cynghori
	Datblygu egwyddorion a pholisiau	-	Creu ac argymell	Adolygu	Cymeradwyo	Cydymffurfio	Cynghori
<b>Gosod cyllideb, adnoddau a chynllun gwaith</b>	Cymeradwyo Cyllideb a Gofynion Adnoddau	Ffurio	Argymell	Cymeradwyaeth ysgrifenedig (IAA, SC2)	Cymeradwyo	-	Cynghori
	Cynnal a chadw a symud y cynllun gwaith yn ei flaen	Gweithredu (IAA 7)	Argymell	-	Cymeradwyo	-	Cynghori
<b>Gweithredu</b>	Dyrannu Asedau Strategol	Amh.	Amh.	Cymeradwyo	Amh.	Amh.	Ymgynghorwyr lleol
	Cytuno ar ofynion yr is-gronfa cyd-fuddsoddi gan gynnwys dosbarthiadau ased, cerbyd (ACS neu arall), amcanion yr is-gronfa a mandad y rheolwr		Creu ac argymell	Adolygu	Cymeradwyo	Gweithredu	Cynghori
	Dewis Rheolwr Buddsoddi	-	Adolygu	Adolygu	Adolygu	Creu a chymeradwyo	Cynghori
	Cytuno ar gynlluniau i drawsnewid asedau yn gerbydau cyd-fuddsoddi	-	Creu ac argymell (IAA, SC8)	Adolygu a Chymeradwyo (IAA, SC2)	Argymell (IAA, SC3)	Gweithredu	Cynghori a monitro'r gweithrediad
	Cytuno ar ofynion a chylch gwaith y cyflenwr (e.e. gweithredwr, rheolwyr trawsnewid, asiantwyr benthyca stoc, ymgynghorwyr)	Creu	Argymell	Cymeradwyaeth ar gyfer gofynion ar Weithredwr newydd (IAA, SC2) I eraill, adolygu	Argymell (IAA, SC3)	-	Cynghori
	Caffael a phenodi Gweithredwr (yn cynnwys contractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth)	Gweithredu (IAA 7.1h)	Argymell	Cymeradwyaeth ysgrifenedig i benodi Gweithredwr (IAA, SC2)	Argymell i'r Awdurdodau Cyfansoddol	Amh.	Cynghori

Tudalen 47

	Caffael a phenodi cyflenwyr eraill (yn cynnwys cytundebau a Chtundebau Lefel Gwasanaeth)	Gweithredu (IAA 7.1h)	Argymell	Adolygu	Cymeradwyo	Gweithredu	Cynghori
	Rheoli Gwrthdaro	Monitro	Creu ac argymell	-	Cymeradwyo	-	Cynghori
<b>Monitro</b>	Monitro'r Gweithredwr, gan gynnwys adrodd am DPA, darpariaeth gwasanaeth, ac ati	Monitro	Adolygu a chymeradwyo unrhyw gamau gweithredu	Adolygu a chymeradwyo unrhyw gamau gweithredu a argymhellir	Argymell unrhyw gamau gweithredu priodol i'r Awdurdodau Cyfansoddol		Monitro a chynghori
	Perfformiad cyflenwyr eraill	Monitro	Adolygu ac argymell unrhyw gamau gweithredu	Adolygu	Cymeradwyo	-	Monitro a chynghori
	Gofynion, Cyllideb a Gwerth am Arian o ran Adnoddau	Gweithredu a monitro (IAA 11)	Adolygu a Chymeradwyo	-	Cymeradwyo	-	Cynghori
	Rheoli Risg	Creu a monitro	Adolygu ac argymell	-	Cymeradwyo	-	Cynghori
	Cydymffurfio â gofynion rheolaethol Y gweithredwr yn cydymffurfio â gofynion oherwydd ei swyddogaethau rheolaethol ei hun)	Creu (IAA 7.1f)	Adolygu ac argymell	Cydymffurfio	Cymeradwyo	Cydymffurfio	Cynghori
	Cydymffurfio â'r polisiau a gytunwyd	-	Adolygu	Cydymffurfio	Cymeradwyo	Cydymffurfio	Cynghori
<b>Adolygu</b>	Adolygiad rheolaidd o'r Gweithredwr a chyflenwyr	Adolygu	Argymell	-	Cymeradwyo	-	Adolygu a chynghori
	Adnabod a Dogfennu Gwersi a Ddysgwyd	-	Creu ac Argymell	-	Cymeradwyo	-	Adolygu a chynghori
<b>Hyfforddiant</b>	Sgiliau, Gwybodaeth ac Hyfforddiant i Swyddogion a'r Cydbwylloqor	Creu	Argymell	-	Cymeradwyo	-	Cynghori
<b>Cymeradwyo</b>		I ystyried argymhellion a chymeradwyo neu gadarnhau					
<b>Adolygu</b>		I asesu a chynnig diwygiadau					
<b>Creu NEU "Datblygu cynnig"</b>		Casglu data perthnasol a pharatoi cynnig yn systematig					
<b>Argymell</b>		Nodi'r dewisiadau a ystyriwyd ac argymell cynnig i'w gymeradwyo					
<b>Cynghori</b>		Cynghori ar neu adolygu dewisiadau, asesu rhinweddau a chynghori'r rheini sy'n gyfrifol am gynigion, argymhellion a chymeradwyaeth					
<b>Monitro</b>		Arsylwi a gwirio'r cynnydd ac/neu ansawdd					
<b>Cydymffurfio</b>		Gweithredu a chydymffurfio â'r cynllun cymeradwy, camau gweithredu a pholisiau					
<b>Gweithredu</b>		Gwneud penderfyniad, cynllun neu gytundeb a bodloni rhwymedigaeth					





## CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

**9 RHAGFYR 2019**

### DIWEDDARIAD LINK / RUSSELL

#### ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:

**Cael cyflwyniad gan Link a Russell ar gynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru**

#### RHESYMAU:

Link a Russell i roi diweddariad ar y meysydd allweddol isod:

- Daliadau Presennol y Cronfeydd
- Cynnydd Lansio'r Gronfa
- Protocol Ymgysylltu Link / PPC

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn: 01267 224160**

**E-bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

**CRYNODEB GWEITHREDOL  
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU**

**9 RHAGFYR 2019**

**DIWEDDARIAD LINK / RUSSELL**

**CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD**

Adroddiad gan Link a Russell yn rhoi diweddariad ar gynnydd a cherrig milltir yr Is-gronfeydd isod:

- Cyfran 1 - Ecwiti Byd-eang
- Cyfran 2 - Ecwiti y DU ac Ewropeaidd
- Cyfran 3 - Incwm Sefydlog
- Cyfran 4 - Marchnadoedd datblygol

Hefyd, diweddariad ar y Protocol Ymgysylltu, gan gynnwys dyddiadau cyfarfod allweddol.

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

# GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb <b>DIM</b>	Cyfreithiol <b>DIM</b>	Cyllid <b>DIM</b>	Materion Rheoli Risg <b>DIM</b>	Goblygiadau Staffio <b>DIM</b>

## YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth  
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

### **GWELER MANYLION ISOD**

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/DOLEN I'R WEFAN


# Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru

9 Rhagfyr 2019

Neuadd y Sir, Caerfyrddin

# Tudalen 54 Daliadau Presennol Cronfa PP Cymru LF


## Cronfa Twf Ecwiti



**£2,288,355,103**

Asedau dan Reolaeth ar 30 Medi 2019

## Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang



**£2,186,490,978**

Asedau dan Reolaeth ar 30 Medi 2019



# Adroddiad Cynnydd Lansio'r Gronfa

Diweddariadau cyfran 2, 3 a 4



Tudalen 55  
part of **Link Group**

# Cerrig Milltir Allweddol

Tudalen 56

Asg	Dyddiad	RAG	Sylw/Cyfrifoldeb
Cytuno ar Gronfeydd - <b>Cyfran 2</b>	25/07/18	<b>C</b>	Cytuno ar ddwy gronfa UK Equity ac European ex UK Equity
Cymeradwyo Prosbectws y Gronfa	05/10/18	<b>C</b>	
Cyflwyno FCA - Cyfran 2	18/01/19	<b>C</b>	Cymeradwyaeth FCA wedi'i dderbyn ar 22 Chwefror, cytuno ar ddyddiad lansio gyda buddsoddwyr bwriadedig
Diweddariad ar brosbectws Benthycu Gwarannau	Awst 2019	<b>C</b>	Prosbectws wedi'i gyflwyno i'r FCA er cymeradwyaeth
Gosodiad Gweithredol	Awst 2019	<b>C</b>	NT – Russell - Gosodiad gweithredol Link wedi'i gwblhau
Cymeradwyaeth y Rheolwr Trawsnewid	Awst 2019	<b>C</b>	Russell Investments wedi'i benodi fel RhT
Lansio Cronfa - Cyfran 2	23/09/19	<b>C</b>	
Cytuno ar Gronfeydd - <b>Cyfran 3</b>	28/06/19	<b>C</b>	Pedair is-gronfa Incwm Sefydlog: Strwythurau cronfeydd Global Credit, Global Government Bond, Absolute Return Bond a Multi Asset Credit wedi'u cymeradwyo a rhestr rheolwyr wedi'i gwblhau gan CBLI ym mis Mawrth. Bydd angen cymeradwyo'r cynnig ffi yng nghyfarfod CBLI ym mis Mehefin.
Ymgynghorydd Trawsnewid a Rheolwr	Medi/Hydref 2019	<b>C</b>	Penodwyd Hymans fel Ymgynghorydd Trawsnewid, a phenodwyd Blackrock fel Rheolwr Trawsnewid
Cyflwyniad FCA – Cyfran 3	Tachwedd 2019	<b>R</b>	Adolygwyd targed y dyddiad cyflwyno, sef 21 Tachwedd, ar gyfer yr FCA, a'r dyddiad targed lansio yw 14 Ionawr
Lansaid y Gronfa – Cyfran 3	Ionawr 2020	<b>R</b>	



# Cynnydd hyd yma

## Cyfran 2 - (Ecwiti y DU ac Ewropeaidd)

- Cymeradwyaeth FCA wedi'i dderbyn ar 22 Chwefror 2019
- Cyngor wedi'i dderbyn o Dorfaen na fydd cronfa Ex-UK Ewrop yn cael ei lansio oherwydd newid strategaeth
- Russell Investments wedi'i benodi fel Rheolwr Trawsnewid ar gyfer cronfa Ecwiti y DU
- Lansiodd cronfa Ecwiti y DU ar 23 Medi 2019

## Cyfran 3 (Incwm Sefydlog)

- Strwythur y gronfa, rhestr rheolwyr a chynigion ffi wedi'u cymeradwyo gan y Cydbwyllgor Llywodraethu
- Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Hymans fel Ymgynghorydd Trawsnewid
- Mae Link, Hymans, Byhiras a'r awdurdod lletya wedi bod yn ymwneud â'r broses o ddewis Rheolwr Trawsnewid Incwm Sefydlog
- Mae Link wedi penodi Blackrock fel y Rheolwr Trawsnewid Incwm Sefydlog
- Cynhaliwyd yr alwad gyntaf gyda Blackrock ar 31 Hydref 2019 er mwyn mynd drwy faterion prosiect allweddol
- Mae cyflwyniad yr FCA wedi'i dargedu ar gyfer 21 Tachwedd 2019, gyda'r dyddiad lansio diwygiedig ar 14 Ionawr 2020
- Mae'r penderfyniad mynd ymlaen/peidio â mynd ymlaen wedi'i amserlennu ar gyfer 9 Rhagfyr 2019 er mwyn penderfynu a fydd lansiad y gronfa'n cael ei gynnal fis Ionawr

## Cyfran 4 (Marchnadoedd Datblygol)

Cyflwynodd Russell bapur cynnig ar farchnadoedd newydd yn y Gweithgor Swyddogion ar 8 Tachwedd 2019

- Mae trafodaethau wedi dechrau ynghylch cyfran 4 Rheolwyr a'r strwythur ariannu dewisol

# Protocol Ymgysylltu Link

Tudalen 58



Part of **Link Group**

# Protocol Ymgysylltu Link

## Busnes fel Arfer

Adolygiad o'r Berthynas Strategol	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dwywaith y flwyddyn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau aliniad strategol rhwng yr Awdurdod Lletya a Link</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Chris Moore</li> <li>Anthony Parnell</li> <li>Dau swyddog Adran 151 / dirprwy swyddog Adran 151</li> </ul>		<b>Mynychwyr Link</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr</li> <li>Duncan Lowman, Pennaeth Sylw Cleientiaid</li> </ul>
Ymgysylltu â'r CBLI	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Chwarterol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymgysylltu â'r Cydbwyllgor Llywodraethu ar faterion o bwys a phethau strategol y gellir eu cyflawni</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydbwyllgor Llywodraethu (CLI)</li> </ul>		<b>Mynychwyr Link</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Karl Midl, Rheolwr Gyfarwyddwr / Duncan Lowman, Pennaeth Sylw Cleientiaid</li> <li>Eamonn Gough, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Denise Jones, Pennaeth Rheoli Newid (yn ôl y gofyn)</li> </ul>
Ymgysylltu â'r GS	Amllder	Amcan
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pob deufis</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnabod a llwyddo i fanteisio ar gyfleoedd i wella ac ymestyn y berthynas</li> <li>Darparu diweddariad ar brosiectau agored neu faterion</li> <li>Adolygiad DPA Misol (Data'n cael ei gyflenwi yn fisol)</li> </ul>
<b>Mynychwyr PPC</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgor Swyddogion (GS)</li> </ul>		<b>Mynychwyr Link</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Eamonn Gough, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Duncan Lowman, Pennaeth Rheoli Perthnasau</li> <li>Denise Jones, Pennaeth Rheoli Newid (yn ôl y gofyn)</li> <li>Ada Wabara, Rheolwr Perthnasau (yn ôl y gofyn)</li> <li>Sheetal Shetty, Rheolwr Gwasanaeth Cleient (yn ôl y gofyn)</li> <li>Presenoldeb ad-hoc Link o adrannau swyddogaethol: Treth, Cydymffurfiaeth, Cynnyrch, ac ati.</li> <li>Rheolwr Buddsoddi (ad-hoc os oes angen ar gyfer materion gweithredol)</li> </ul>

## Busnes fel Arfer

Diwrnod Blynyddol i Ran-ddeiliaid		Amlder	Amcan
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn flynyddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Diwrnod agored am gyflwyniadau ar strategaeth a pherfformiad (gyda'r Rheolwr Buddsoddi)</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Agored i bawb sy'n rhan</li> </ul>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Tîm Cleient Link</li> <li>Northern Trust</li> <li>Russell Investments ac/neu ymgynghorwyr eraill (e.e. Hymans, bFinance)</li> <li>Rheolwyr Buddsoddi</li> </ul>
Pwyllgorau'r Gronfa Bensiwn		Amcan	
		<ul style="list-style-type: none"> <li>Yn flynyddol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Diweddariad cyffredinol ar yr ACS a'r mentrau sydd wedi'u cynllunio</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfarfodydd y Pwyllgorau Cronfeydd Pensiwn Unigol</li> </ul> <p>Ymgysylltu Allweddol Link gyda'r Bartneriath yn 2019/20 Link</p>			<ul style="list-style-type: none"> <li>Eamonn Gough, Uwch Reolwr Perthnasau</li> <li>Ada Wabara, Rheolwr Perthnasau</li> <li>Duncan Lowman, Pennaeth Rheoli Perthnasau</li> <li>Russell Investments</li> </ul>

**Presenoldeb Link mewn cyfarfodydd Gweithgor Swyddogion:**

- 6 Mehefin (Wedi'i gwblhau)
- 28 Awst (Wedi'i gwblhau)
- 8 Tachwedd (Wedi'i gwblhau)
- 31 Ionawr

**Galwadau prosiect parhaus:**

- Yn cael eu cynnal pob pythefnos – Dydd Iau

**Link - Dyddiadau mynychu Pwyllgor Pensiynau Medi i Ragfyr**

- Dyfed – 18 Medi 2019 (Wedi'i gwblhau)
- Powys – 4 Hydref 2019 (Wedi'i gwblhau)
- Abertawe – 21 Tachwedd 2019 (Wedi'i gwblhau)
- Clwyd – 28 Tachwedd 2019
- Caerdydd – 10 Rhagfyr 2019
- Gwynedd – 16 Ionawr 2020
- Torfaen – 9 Mawrth 2020
- Rhondda Cynon Taf – 23 Mawrth 2020

**Adolygiad o'r berthynas strategol:**

- 7 Mai (Wedi'i gwblhau)
- 7 Mehefin (Wedi'i gwblhau)
- 6 Tachwedd (Wedi'i gwblhau)

**Presenoldeb Link mewn cyfarfodydd Cadeiryddion Bwrdd Pensiynau:**

- 2 Ebrill (Wedi'i gwblhau)
- 3 Hydref (Wedi'i gwblhau)

**Diwrnod Blynyddol i Ran-ddeiliaid:**

- 19 Medi – Ecwitiâu (Wedi'i gwblhau)
- 12 Tachwedd – Incwm Sefydlog (Wedi'i gwblhau)



## CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU

**9 RHAGFYR 2019**

### ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 30 MEDI 2019

#### ARGYMHELLION / Y PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SY'N OFYNNOL:

**Nodi adroddiadau perfformiad yr is-gronfeydd a ganlyn fel ar 30 Medi 2019:**

- Cronfa Dwf Byd-eang PPC, a
- Chronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC.

#### RHESYMAU:

Mae Northern Trust wedi paratoi adroddiadau perfformiad ar gyfer Cronfa Dwf Byd-eang PPC a'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC fel ar 30 Medi 2019.

**Awdur yr Adroddiad:**  
**Chris Moore**

**Swydd:**  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau  
Corfforaethol  
  
**Cyngor Sir Gâr**

**Rhif Ffôn 01267 224160**

**E- bost:**  
**CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

# CRYNODEB GWEITHREDOL CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

9 RHAGFYR 2019

## ADRODDIADAU PERFFORMIAD AR 30 MEDI 2019

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae Northern Trust wedi paratoi adroddiadau perfformiad ar gyfer Cronfa Dwf Byd-eang PPC a'r Gronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC fel ar 30 Medi 2019.

#### Gwerthoedd y Farchnad:

- Cronfa Dwf Byd-eang PPC:
  - Gwerth y Farchnad fel ar 31 Mawrth 2019 - £2,081,211,751
  - Gwerth y Farchnad fel ar 30 Mehefin 2019 - £2,204,139,517
  - Gwerth y Farchnad fel ar 30 Medi 2019 - £2,288,355,103
- Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC:
  - Gwerth y Farchnad fel ar 31 Mawrth 2019 - £1,974,027,029
  - Gwerth y Farchnad fel ar 30 Mehefin 2019 - £2,114,503,736
  - Gwerth y Farchnad fel ar 30 Medi 2019 - £2,186,490,978

#### Perfformiad – O'r dechrau hyd yma (gros o ffioedd):

- Cronfa Dwf Byd-eang PPC:
  - Gwir 10.27%
  - Meincnod 12.39%
  - Adenillion Gweddilliol -2.12%
- Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC:
  - Gwir 11.23%
  - Meincnod 10.82%
  - Adenillion Gweddilliol 0.41%

ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?

OES

## GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb <b>DIM</b>	Cyfreithiol <b>DIM</b>	Cyllid <b>OES</b>	Materion Rheoli Risg <b>DIM</b>	Goblygiadau Staffio <b>DIM</b>
<b>Cyllid</b> Mae gwerthoedd marchnad y ddwy gronfa wedi cynyddu yn ystod y chwarter diwethaf. Mae cronfa dwf byd-eang PPC wedi cynyddu 3.82% o £2,204,139,517 i £2,288,355,103 ac mae cronfa cyfleoedd byd-eang PPC wedi cynyddu 3.4% o £2,114,503,736 i £2,186,490,978.				

## YMGYNGHORIADAU

Manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhelir i'w cynnwys yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol, 1972 - Mynediad at Wybodaeth  
Rhestr o'r Papurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**

### **GWELER MANYLION ISOD**

Teitl y Ddogfen	Rhif Cyfeirnod Ffeil	Lleoliad y mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd gael eu gweld/ <b>DOLEN I'R WEFAN</b>





NORTHERN  
TRUST

# Cronfa Cyfleoedd Byd-eang PPC

---

Gwasanaethau Risg Buddsoddi a Dadansoddol

30 Medi, 2019

# Tabl Cynnwys

---

